

Cofion a Chyfarchion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Annie Edwards (Saron) y penwythnos diwethaf, un a roddodd flynyddoedd o wasanaeth yn gofalu am eraill. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf ag Eric, Lisa ac Iona, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, nain a chwaer arbennig. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt fel teulu ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.

Parhawn i gofio am Margaret Jones (Llansannan) a Bessie Owens (Cefn Berain) sydd yn yr ysbyty, ac anfonwn ein cofion at Mair Davies (Llansannan) a Mair Owen (Peniel) fu hefyd yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau yn ddiweddar. Mae eraill o'n plith sy'n cael amrywiol driniaethau ar hyn o bryd – cyflwynwn hwy oll yn ein gweddïau, gan hyderu y byddant yn profi nerth a chynhalieth Duw ei hun yn ddigon y dyddiau hyn ac y byddant yn teimlo'n well yn fuan iawn.

Anfonwn ein cofion hefyd at ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Morfudd Williams, Mrs Gwenllian Jones a Mrs Gwyneth Griffiths (Henllan); Mrs Megan Evans (Llansannan) a Mr Bob Lloyd (Llanfair). Fe'u cyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

Llongyfarchiadau i Llinos Roberts (Llansannan) ac Aled ar enedigaeth merch, Mared Alwen, chwaer fach i Dewi Aled.

Llongyfarchiadau hefyd i Dilys Vaughan (Saron) fydd yn dathlu penblwydd arbennig cyn diwedd y mis.

Enwebiadau Medal Gee

Croesewir enwebiadau am fedalau o'r eglwysi gan gofio bod yn rhaid i bob ymgeisydd a enwebir gan ei eglwys fod dros 75 oed ac yn dal i fynychu'r Ysgol Sul. Mae modd lawrlwytho ffurflen enwebu o wefan www.ysgol.com

Rhaid i bob cais sydd i'w ystyried ar gyfer eleni fod wedi cyrraedd Y Parchg. Aled Davies, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli LL53 6SH erbyn Mehefin 30ain fan hwyraf.

I ddod

- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Cefn Meiriadog dydd Sadwrn, Gorffennaf 13eg (sylwch ar y dyddiad newydd).
- **CYFARFOD GWOBROWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL Â'R FEDAL GEE** dydd Sadwrn, Medi 14eg yng Nghapel Berea Newydd, Bangor, am 2.00.



Llais Bro Aled

Mehefin 23^{ain} a 30^{ain}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:
[@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes i'n amrywiol wasanaethau ym Mro Aled heddiw.

Dwi'n sgwennu'r Llais Bro Aled hwn ar drothwy hirddydd haf, Mehefin yr 21ain. Mae'r dyddiad yma'n nodedig oherwydd ei fod yn ein hatgoffa lle'r ydym mewn perthynas â gweddill y flwyddyn. O rŵan ymlaen byddwn yn nesáu at yr hydref ac yna'r gaeaf – 6 mis cyntaf o'r flwyddyn ar fin pasio a ninnau'n edrych ymlaen at ail hanner blwyddyn arall. Efallai eich bod yn tybio nad yw hynny'n bwysig ynddo'i hun, ond rydym fel pobl wastad yn tueddu i gymryd sylw o ddyddiadau ac amseroedd. Sawl gwaith yr ydych wedi clywed pobl yn dweud mewn syndod – 'Ew, tydi'r flwyddyn yma yn hedfan heibio?' Ceir ymateb digon tebyg wrth deithio – plant yng nghefn y car eisiau gwybod lle'r ydym a phryd y byddwn yn cyrraedd diwedd y daith! Ond beth am ein bywydau ni – oes 'na ffordd i ni wybod lle'r ydym ni arni o ran taith bywyd? Y gwir brawychus yw nad oes neb ohonom yn gallu dweud yn union lle'r ydym ar y daith. Gallwn ddyfalu'n gyffredinol (dechrau / canol / tua'r terfyn) ond dyna'r cwbl, a hyd yn oed wedyn mae digwyddiadau trychinebus yn gallu newid y cyfan ar amrantiad. Tra'r oedd yr Apostol Paul yn tybio fod y diwedd ar ddod (2 Tim. 4:6), nid oedd ganddo amheuaeth lle'r oedd yn mynd, neu'n hytrach at bwy yr oedd yn mynd. Yn Philipiadau 1:23 dywed Paul mai 'gadael y byd yma i fod gyda'r Meseia am byth – dyna'n sicr ydy'r peth gorau allai ddigwydd i mi'. (beibl.net) Sut oedd o'n gallu dweud y fath beth? Nid siarad geiriau gwag ydoedd, na gobeithio am y gorau – roedd yn hyderus am yr hyn fyddai'n digwydd iddo oherwydd ei fod yn adnabod Crist yn barod ac yn gwybod mai dyna yw'r allwedd i fywyd tragwyddol (Ioan 17:3). Gwyddai Paul pwy fyddai ar ben ei daith oherwydd ei fod yn gwybod pwy fu'n ei gynnal ar hyd y daith, ers iddo glywed Ei lais ar y ffordd i Ddamascus. (Actau 9:4)

Er ein bod yn ansicr beth yn union sydd rownd y gornel, gallwn gael hyder i wynebu beth bynnag a ddaw os ydym yn perthyn i Iesu Grist trwy ffydd. Nid yw'r rhy hwyri i droi ato, ac i dderbyn y cyfan a enillodd i'w bobl trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Meddai Iesu: 'Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthyfch fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi?' (Ioan 14:1-2)

Rhodri

Ieuenctid 15+

Bydd sesiynau yn cael eu cynnal dros yr haf i'r rhai sydd ag awydd dod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac os byddan nhw'n dymuno wedi hynny, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol. Felly, os oes gennych ddi-ddordeb, rhowch eich enw i Rhodri neu Mair erbyn Gorffennaf 7fed, os gwelwch yn dda, fel y gallwn drefnu amser cyfleus i gyfarfod.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 23^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 26^{ain}
lau – 27^{ain} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Bydd **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 7.00. Cyn delio â'r materion gwaith, bydd y Parch. Aled Davies, Chwilog yn annerch ar y testun "A ddeil yr Iesu eto i alw?" Yn ogystal â bod yn weinidog eglwys, mae Aled yn Gyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru, a Chyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair, ac mae hefyd newydd gyhoeddi'r gyfrol 'Yr Alwad' sy'n olrhain taith 23 o weinidogion i'r weinidogaeth Gristnogol yng Nghymru.
- Sul nesaf – 30^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 3^{ydd}
Gwener – 5^{ed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul canlynol – 7^{fed} ➤ **Bore Bro Aled**
Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yng Nghefn Meiriadog. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Ffestri yn ystod y gwasanaeth a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- **Oedfa o Fawl** yng nghwmni Meilyr Geraint, cerddor ifanc o Bontypridd yn Llansannan am 6.00.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 23^{ain} ➤ Bydd Gwion Dafydd yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd Gwion Dafydd yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Sul nesaf – 30^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Pritchard yn arwain oedfa yn Henllan am 9.30. Yn dilyn yr oedfa yn Henllan, bydd Ysgol Sul am 10.30 a'r un modd yn Groes am 10.45.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd y Parch. John Pritchard yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Sul canlynol – 7^{fed} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yng Nghefn Meiriadog.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 23^{ain} ➤ Bydd Mr Andrew Settatee yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ac Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd Mr Andrew Settatee yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Llun – 24^{ain} ➤ Sesiwn Celf y grŵp Paned a Sgwrs hefo Dawn Wilks yn Ffestri Llansannan 1.00–3:45 y pwnn.
- Mercher – 26^{ain} ➤ Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (23^{ain})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 30^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30 y bore a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 11.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llansannan am 10.00 y bore a bydd Rhodri yn arwain oedfa am 11.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.
- Mercher – 3^{ydd} ➤ Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (30^{ain})**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 7^{fed} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yng Nghefn Meiriadog.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 23^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul yn dilyn.
- Bydd Rhodri hefyd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 30^{ain} ➤ Bydd aelodau Peniel a Saron yn mynd ar bererindod – mwy o fanylion i ddilyn.
- Sul canlynol – 7^{fed} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yng Nghefn Meiriadog.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (3^{ydd}), os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.